**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd Nos Fawrth, Mai 17eg 2016 am 6 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Mark Young (cadeirydd), Medwyn Williams, Philip Stevens, Alyn Ashworth a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Rob Parkes, Margaret Bowe, Gaynor Morgan Rees

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **Datgan Diddordeb Personol.** Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

2. **Apwyntio is gadeirydd:** Cyng Alyn Ashworth.

3. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Ebrill 19eg 2016.**

3. **Materion yn codi:** Nid oedd unrhyw fater yn codi.

4. **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio**.

   Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r cais canlynol am ganiatâd cynllunio:

   (1) Y Bryn, Lôn Bull - dymchwel estyniad to gwastad; codi estyniad un llawr gyda theras to a newidiadau mewnol.
   (2) 2, Llys Wynnes Parc - codi estyniad i'r tŷ.
   (3) Glandwr, Lawnt - codi estyniad un llawr i gefn yr adeilad.

   Ynglŷn â'r cais cynllunio a dderbyniwyd ar gyfer Tir (rhan o ardd) ym Mryn Parc, Stryd y Parc - adeiladu un tŷ, cytunwyd, tra ddim yn gwrthwynebu'r cais, i dynnu sylw at agosrwydd yr adeilad arfaethedig at yr adeilad rhestredig cyfagos.

   Ynglŷn â'r cais cynllunio a dderbyniwyd ar gyfer tir yn Cae Topyn oddi ar Hen Ffordd Rhuthun a Ffordd Eglwyswen - adeiladu 75 o dai ynghyd a ffyrdd cysylltiol, mannau agored a gwaith cysylltiol, penderfynwyd cyfeirio'r cais am ystyriaeth gan y cyngor llawn yng nghyfarfod y cyngor ar Fai 23ain 2016.

5. **Materion Cynllunio eraill:** Gohebiaeth oddi wrth GSDd ynglŷn â gwerthiant tir yn Fferm y Lodge nad oedd ei angen mwyach i'r tenant presennol. Yn dilyn trafodaeth fer cytunwyd i beidio â gwrthwynebu gwerthiant y tir ar gyfer dibenion amaethyddol i'r tenant presennol.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 6.28 o'r gloch.

Arwyddwyd:............................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:............................................